# Adroddiad Arolygu

**Yellow Bunnies Daycare Ltd**

**Sefydliad Lysaght**
**Orb Drive**
**Casnewydd**
**NP19 0RA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddi l heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/06/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**_Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021._**
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Yellow Bunnies Daycare Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Yellow Bunnies Daycare |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r tro cyntaf i'r lleoliad hwn gael ei arolygu ers ei gofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Crynodeb**

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn cael hwyl yn y lleoliad. Maent yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau ac yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff. Mae'r plant yn cael llawer o ddewis ac yn dod yn annibynnol. Mae'r staff yn gyfeillgar, yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, ac yn rhoi gofal mewn ffordd gynnes a magwrus. Maent yn brofiadol ac yn cynllunio gweithgareddau addas sydd o ddiddordeb i'r plant. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r rhieni i gynllunio ar gyfer anghenion unigol y plant. Mae systemau defnyddiol ar waith i fonitro cynnydd y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, mewn cyflwr da ac mae digon o le yno. Mae amrywiaeth eang o deganau, adnoddau a chyfarpar yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant.  Mae gan y rheolwr ddealltwriaeth gadarn o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol Rheoliadau. Mae'n rhoi cymorth da i'r staff ac mae'r staff yn canmol eu rheolwr. Roedd y rhieni y cawsom sgwrs â nhw yn canmol y gofal a roddir i'w plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Caiff y plant eu hannog i siarad a mynegi eu hunain. Gwrandewir arnynt, ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gwella eu hunan-barch. Gwelsom weithgaredd hyfryd yn ystod amser cylch lle roedd y plant yn cymryd eu tro i siarad a gwrando ar eu ffrindiau. Caiff y plant gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Maent yn dewis o blith amrywiaeth briodol o gyfleoedd chwarae ac yn cyfrannu at y gwaith o gynllunio gweithgareddau.

Mae'r plant yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni/gofalwyr. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff, ac maent yn gwybod y bydd y staff yn eu helpu. Gwelsom fod y plant yn gofyn i'r staff fynd gyda nhw i'r tŷ bach pan oedd angen iddynt ddefnyddio'r toiled. Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chware'n hapus â'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'r plant yn gyfarwydd ag arferion y lleoliad, sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Maent yn setlo'n dda ar gyfer amser byrbryd ac yn mynd ati'n frwdfrydig i ymuno mewn cân sy'n arwydd bod amser byrbryd ar fin dechrau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn canolbwyntio ar weithgareddau am gyfnod priodol o amser. Dangosodd un plentyn llun a luniwyd yn ofalus ganddo i ni, gan ddweud, *'that's mummy' (dyna fy mam).* Mae'r plant yn rhannu teganau ac yn chwarae'n dda gyda'i gilydd. Maent yn garedig tuag at eu ffrindiau ac yn ystyriol ohonynt. Pan darodd plentyn un o'r plant eraill ar gam, ymddiheurodd ar unwaith, gan sicrhau fod ei ffrind yn iawn.

Mae'r plant yn datblygu'n dda. Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn hyrwyddo eu dysgu cyffredinol. Gwelsom y plant yn cydweithio i adeiladu ciwbiau gan ddefnyddio darnau adeiladu bach; roeddent yn pentyrru'r ciwbiau i greu tŵr, gan floeddio a chwerthin yn uchel wrth iddynt eu dymchwel. Mae'r plant yn dysgu sgiliau hunangymorth, sy'n eu helpu i baratoi ar gyfer mynd i'r ysgol. Maent yn golchi eu dwylo'n annibynnol, ac yn tynnu eu cotiau eu hunain pan fyddant yn cyrraedd. Mae'r plant yn mwynhau amser byrbryd/prydau bwyd cymdeithasol, ac maent yn sgwrsio'n hapus â'u ffrindiau a'r staff.

## Gofal a Datblygiad

Mae gan y staff wybodaeth dda am sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent wedi addasu'n dda i weithdrefnau '*Mesurau diogelu mewn lleoliadau gofal plant*' Llywodraeth Cymru i helpu i gadw pawb yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r staff yn defnyddio menig a ffedogau wrth baratoi a thrin bwyd y plant. Maent yn atgoffa'r plant i orchuddio eu cegau wrth besychu, ac yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo am gyfnod priodol o amser. Cynigir byrbrydau iachus ac anogir y rhieni i ddarparu pecyn cinio iachus. Mae systemau cadarn ar waith i reoli alergeddau bwyd a gofynion deietegol unigol y plant. Mae'r staff yn gwybod sut i godi pryderon diogelu er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn siarad yn hyderus am y gweithdrefnau hyn ac yn gwybod y bydd yr arweinwyr yn ymateb i unrhyw bryderon a godir. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar amddiffyn plant a chymorth cyntaf ac mae ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael iddynt. Mae ymarferion tân rheolaidd yn sicrhau bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael y safle'n ddiogel.

Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn modd caredig ac amyneddgar. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant, a'i effaith ar ymddygiad plant. Mae'r staff yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith, sy'n gwella llesiant y plant. Er enghraifft, pan oedd plentyn am gael tegan yr oedd un o'r plant eraill yn chwarae ag ef, dywedodd aelod o'r staff, '*we are sharing, would you like to play too?' (rydyn ni'n rhannu, hoffet ti chwarae hefyd?).* Mae'r staff yn defnyddio llawer o ganmoliaeth a sticeri i annog ac atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Maent bob amser yn fodelau rôl gwych.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda. Maent yn cynllunio amrywiaeth briodol o weithgareddau sydd o ddiddordeb i'r plant. Mae'r staff yn gwerthuso gweithgareddau bob dydd yn unol â mwynhad a chynnydd y plant. Mae hyn yn dylanwadu ar y gweithgareddau a gynigir y diwrnod canlynol. Mae systemau ar waith i fonitro a chofnodi cynnydd a datblygiad y plant. Mae'r staff yn cynnal arsylwadau rheolaidd ar brofiadau chwarae'r plant ac yn defnyddio'r rhain i gynllunio camau dysgu nesaf y plant. Maent yn casglu samplau o waith y plant i lunio dyddiadur dysgu i ddangos cynnydd y plant. Mae'r staff yn dyddio ac yn gwerthuso'r rhan fwyaf o'r gwaith yn y dyddiadur dysgu, ond roedd rhai bylchau'n amlwg. Mae'r staff yn dechrau nodi anghenion ychwanegol y plant a defnyddio rhai o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Clywsom y staff a'r plant yn defnyddio llawer o Gymraeg yn ystod amser cylch.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn darparu digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae asesiadau risg manwl ar waith ar gyfer pob rhan o'r lleoliad, gweithgareddau ac unrhyw deithiau a gynhelir. Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol yn helpu i gadw pawb yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19. Er enghraifft, mae'r staff yn cynnal profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos ac mae mesurau glanhau a golchi dwylo ychwanegol ar waith. Cynhelir gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer yr adeilad a'r teclynnau. Mae'r cofrestrau ar gyfer y plant a'r staff sy'n gofalu amdanynt yn gyflawn. Mae'r staff yn sicrhau mai dim ond drwy fynediad awdurdodedig y gellir mynd i mewn i'r lleoliad, ac maent yn cadw cofnod o ymwelwyr.

Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r plant yn gallu defnyddio teganau ac adnoddau yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae'r staff yn arddangos ffotograffau o'r plant o amgylch y lleoliad, sy'n rhoi ymdeimlad hyfryd o berthyn i'r plant. Mae arddangosfeydd dwyieithog deniadol o waith y plant yn dathlu eu cyflawniadau ac yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd i'r plant, gan gynnwys tywod, dŵr, offer dringo a chegin fwd. Dywedodd rhiant wrthym fod ei blentyn wrth ei fodd yn chwarae yn y gegin fwd, a'i fod yn cael llawer o luniau o'i blentyn yn chwarae yn yr awyr agored.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r teganau a'r cyfarpar yn cael eu glanhau'n rheolaidd, sy'n bwysig iawn yn ystod y pandemig presennol. Mae'r adnoddau o ansawdd da. Mae'r lleoliad yn cynnwys dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau o faint addas i blant, ac ardal storio cotiau ar gyfer eu heiddo. Mae nifer priodol o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael. Mae sebon hylif a sychwyr dwylo ar gael, ond nid oes unrhyw dywelion papur ar gael, sy'n well yn ystod y pandemig presennol.

## Arwain a Rheoli

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys y wybodaeth berthnasol. Nid oedd y polisi ar blant coll yn cynnwys gwybodaeth am gyfeirio digwyddiadau at y bwrdd diogelu lleol. Mae datganiad o ddiben clir ar waith, sy'n rhoi gwybodaeth gywir i'r rhieni am y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Nid oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y manylion cyswllt cyfredol ar gyfer AGC. Mae'r rheolwr yn llawn cymhelliant ac mae ganddo weledigaeth glir.

Mae'r rheolwr yn cynnal gwiriadau trylwyr er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio unigol rheolaidd sy'n rhoi'r cyfle iddynt fyfyrio ar eu cryfderau a thrafod unrhyw anghenion hyfforddi. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau ac yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn ddidrafferth. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol cyfredol, megis cymorth cyntaf. Byddant yn adnewyddu eu cymwysterau pan fydd rhagor o hyfforddiant ar gael. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod digon o aelodau cymwys a phrofiadol o staff i sicrhau bod y plant yn cael gofal da bob amser.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r rheolwr yn cynllunio'n briodol ar gyfer gwella. Mae systemau ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r rheolwr yn ceisio adborth rheolaidd gan y rhieni a'r plant er mwyn cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal. Mae'r adroddiad yn nodi gwelliannau a'r camau i'w cymryd i gyflawni'r rhain.

Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni bob dydd. Mae rhieni'r plant iau yn cael cofnod ysgrifenedig o ddiwrnod eu plentyn ac mae rhieni'r plant hŷn yn cael adborth ar lafar ar ddiwedd sesiwn eu plentyn. Hefyd, mae pob rhiant yn cael ffotograffau o'u plant yn chwarae drwy ap cyfryngau cymdeithasol preifat. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon iawn ar y lleoliad, gan ddweud, '*staff are fantastic, they look after the whole family, so supportive.' (mae'r staff yn wych – maen nhw'n gofalu am y teulu cyfan, ac maen nhw mor gefnogol).*

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod y gwaith yn nyddiaduron dysgu'r plant wedi'i ddyddio a'i werthuso.

A2. Ystyried defnyddio tywelion papur i'r plant sychu eu dwylo.

A3. Diweddaru'r Polisi ar blant coll

A4. Diweddaru'r datganiad o ddiben i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGC.

A5. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn adnewyddu ei hyfforddiant ar gymorth cyntaf pediatrig pan fydd cyrsiau ar gael.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni | |
|---|---|

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/08/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi